**Rhif:** WG29401

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar Gynigion i Gyflwyno Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i Lifogydd ac Argyfyngau Eraill yn ymwneud â Dŵr:

## Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017

Dyddiad cyhoeddi: **27 Chwefror 2017**

© Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-8687-4

**Cynigion i Gyflwyno Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i Lifogydd ac Argyfyngau Eraill yn ymwneud â Dŵr:**

**Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017**

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob sefydliad â buddiant yn y maes ymateb i lifogydd ac achub rhag dŵr yng Nghymru, gan gynnwys tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru, undebau ymladdwyr tân, Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cyfoeth Naturiol Cymru, y pedwar llu Heddlu, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Fforymau Cydnerth Lleol a sefydliadau achub a gwirfoddol eraill. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru iddynt. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:<br>Kerry Citric<br>Y Gangen Gwasanaethau Tân<br>Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br>Ffôn: 0300 062 8226 |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru:<br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dyletswydd-statudol-ar-awdurdodau-tan-ac-achub-cymru-i-ymateb-i-ddigwyddiadaun-ymwneud |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Cynigion i Gyflwyno Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i Lifogydd ac Argyfyngau Eraill yn ymwneud â Dŵr:<br>Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017 – Dogfen ymgynghori (cyhoeddwyd 2016) |

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 4 |
| Y Broses Ymgynghori | Tudalen 4 |
| Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad | Tudalen 5 |
| Cwestiynau 1 a 2<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 6<br>Tudalen 7 |
| Cwestiwn 3<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 8<br>Tudalen 9 |
| Cwestiwn 4<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 10<br>Tudalen 11 |
| Cwestiwn 5<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 11<br>Tudalen 11 |
| Cwestiwn 6<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 12<br>Tudalen 12 |
| Cwestiwn 7<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 12<br>Tudalen 13 |
| Cwestiwn 8<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 13<br>Tudalen 13 |
| Cwestiwn 9<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | Tudalen 13<br>Tudalen 14 |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub (FRAs) yng Nghymru eisoes yn ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol gan ddefnyddio eu pwerau[1] cyffredinol a'u hadnoddau presennol, er nad oes dyletswydd benodol arnynt i wneud hynny. Felly, aethom ati i ymgynghori ar gynigion i gyflwyno dyletswydd statudol ar y FRAs i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr mewndirol er mwyn ffurfioli'r trefniadau hyn.

Roedd y cynigion yn cynnwys:-

- Diffiniad o lifogydd a dyfroedd mewndirol fel a ganlyn:

    - Ystyr *llifogydd* yw sefyllfa lle mae tir nad yw fel arfer wedi'i orchuddio â dŵr yn cael ei orchuddio â dŵr.
    - Mae *dŵr mewndirol* yn cynnwys afonydd, nentydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr a chwareli sydd wedi'u llenwi â dŵr.

- Manylion natur arfaethedig y ddyletswydd – cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai'r ddyletswydd ganolbwyntio ar argyfyngau sy'n gysylltiedig â llifogydd a dyfroedd mewndirol sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, niwed difrifol neu salwch difrifol i bobl. Ni chynigiodd yr ymgynghoriad y dylid cynnwys dyletswydd statudol i ymateb i lifogydd a all achosi niwed difrifol i'r amgylchedd a/neu iechyd planhigion ac anifeiliaid yn unig. Fodd bynnag, byddai FRAs yn dal yn gallu ymateb i'r mathau hyn o argyfyngau o dan eu pwerau cyffredinol eraill.

  Byddai'r cynigion yn ei gwneud hi'n ofynnol i FRAs ddatblygu a chynnal y gallu i ymdrin â llifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol, yn hytrach nag ymateb mewn ffordd benodol yn unig.

## 2. Y Broses Ymgynghori

Dechreuodd ymgynghoriad 12 wythnos ar 15 Medi 2016, ac arhosodd ar agor ar gyfer ymatebion hyd at 22 Rhagfyr 2016. Daeth y ddogfen ymgynghori i ben gyda 9 cwestiwn, gydag opsiynau i ymateb i'r cwestiynau hynny mewn e-bost, ar-lein neu drwy'r post. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gwahoddodd yr ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys copi o'r Gorchymyn drafft, sylwadau ar y canlynol:-

- Y diffiniad arfaethedig o ddyfroedd mewndirol;
- Cyfyngiadau arfaethedig y ddyletswydd;
- A ddylai'r ddyletswydd gael ei hymestyn i'w gwneud hi'n ofynnol i FRAs gydweithredu'n drawsffiniol;
- Y cynnig i beidio â chynnwys dyletswydd ar FRAs i arwain neu gydgysylltu ymatebion i achosion yn ymwneud â dŵr;
- Y Gorchymyn drafft ei hun.

[1] Er enghraifft, yn adran 11 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 38 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Awdurdod Harbwr Caerdydd
Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys
Undeb y Brigadau Tân
Cyngor Sir y Fflint
FRA Swydd Gaerloyw
FRA Manceinion Fwyaf
Heddlu Gwent
Y Swyddfa Gartref
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
FRA Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
FRA Norfolk
FRA Gogledd Cymru
Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn
RSPCA Cymru
FRA De Cymru
Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y De
Cyngor Bro Morgannwg (2)
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cafwyd ymatebion gan 13 o unigolion a grwpiau preifat hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i bob un o'r cwestiynau penodol, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

Er y nodwyd rhai pryderon ynglŷn â manylion y cynigion, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno dyletswydd statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r ddyletswydd newydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2017. Bydd y ddyletswydd hon yn seiliedig yn bennaf ar yr hyn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, er ein bod wedi gwneud rhai newidiadau mewn ymateb i farn ymgyngoreion. Rydym yn esbonio'r newidiadau hynny yng ngweddill y ddogfen hon.

Nodwyd rhai pryderon nad oeddent yn berthnasol i'r mater yr oeddem yn ymgynghori arno. Rydym wedi nodi'r pryderon hyn, ond nid ydym wedi eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r ymateb hwn.

Gan fod Cwestiynau 1 a 2 yn ymwneud â'r diffiniad arfaethedig o 'ddyfroedd mewndirol', rydym wedi ystyried a chrynhoi'r ymatebion i'r ddau gwestiwn gyda'i gilydd, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

## <u>Cwestiwn 1</u> – Beth yw eich barn chi am y diffiniad arfaethedig o ddyfroedd mewndirol yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft?

## <u>Cwestiwn 2</u> – A oes gennych chi unrhyw gynigion amgen ar gyfer diffiniad o 'ddyfroedd mewndirol'? Rhowch fanylion.

Roedd 26 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o 'ddyfroedd mewndirol'. Er bod rhai ymatebwyr eraill yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig ar y cyfan, awgrymwyd y dylid ehangu'r diffiniad ymhellach i gynnwys cyrff dŵr eraill. Roedd y cyrff dŵr hyn yn cynnwys:-

- Pyllau dŵr, gan gynnwys pyllau 'tailing';
- Pyllau;
- Ardaloedd mawr o ddŵr agored a grewyd gan gloddfeydd masnachol megis echdynnu gro. Nododd dau ymatebydd bryderon ynglŷn â'r diffiniad o chwarel;
- Morlynnoedd aneddiadau diwydiannol a gwarchaeau dociau.

Gofynnodd eraill am i'r diffiniad fod yn fwy clir o ddŵr mewndirol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft, ynghyd ag awgrymu rhai 'eithriadau'. Dyma rai o'r pryderon a nodwyd:

- Nododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â sefyllfa aberoedd a dyfroedd y llanw (gan gynnwys ar ffiniau rhwng afonydd a'r môr);
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynglŷn â dyfrffyrdd penodol eraill megis aberoedd afonydd, morlynnoedd a morgloddiau. Cafwyd cyfeiriadau penodol at Aberdaugleddau, Bae Caerdydd, afon Menai ac aber afon Hafren;
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai cyrff dŵr artiffisial a grëwyd yn bwrpasol ar gyfer gweithgareddau hamdden, megis plymio mewn chwareli, llynnoedd a chronfeydd dŵr gael eu hepgor;
- Roedd rhai ymatebwyr am gael mwy o fanylion am y gwahaniaeth rhwng llyn a phwll.

Nododd dau ymatebydd bryderon ynglŷn â llifogydd arfordirol a'r angen i gynnwys diffiniad clir yn y ddyletswydd newydd arfaethedig.

Roedd dau o'r tri FRA yng Nghymru yn poeni efallai y byddai disgwyl iddynt ddarparu gwasanaeth chwilio ac achub o dan y ddaear. Nid oes gan FRAs y cyfarpar arbenigol ac nid ydynt yn cynnig yr hyfforddiant sy'n ofynnol i wneud darpariaeth o'r fath.

Er y cynigiwyd y dylid cynnwys mathau eraill o ddŵr mewndirol yn y diffiniad, fel yr amlinellir uchod, dim ond Awdurdod Harbwr Caerdydd a gynigiodd diffiniad cwbl wahanol o 'ddyfroedd mewndirol'. Cynigiodd y dylid defnyddio dosbarthiad cydnabyddedig Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) i ddiffinio 'dyfroedd mewndirol' i gynnwys cyrff mewndirol Categori A a B (a rhai cyrff Categori C) yn y diffiniad. Awgrymodd y byddai hyn yn osgoi'r angen i greu set o ddosbarthiadau ar wahân ar gyfer Cymru'n unig.

Fodd bynnag, awgrymodd FRA Swydd Gaerloyw y dylai'r diffiniad (a) gael ei ymestyn i gynnwys 'neu gyrsiau dŵr eraill, boed yn naturiol neu'n artiffisial' a (b) chael ei ymestyn i gynnwys 'neu gyrff dŵr agored llai o faint megis pyllau, lynnoedd mynydd'.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

***Dyfroedd mewndirol***

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi bod diffinio dyfroedd mewndirol at ddiben y ddyletswydd hon yn gallu bod yn gymhleth. Rydym yn derbyn hefyd fod angen i'r rhai a fydd yn cael eu heffeithio gan y ddyletswydd newydd fod yn sicr beth y bydd hyn yn ei olygu yn ymarferol, ac rydym yn deall pam mae llawer o'r sylwadau hyn wedi'u gwneud. Mae angen cydbwysedd rhwng diffiniad manwl a chynhwysfawr ac un sy'n gryno a hawdd ei ddeall. Yn fwy na dim, mae angen i'r diffiniad adlewyrchu gallu presennol FRAs. Er enghraifft, gallem ddiffinio dŵr mewndirol fel unrhyw gorff o ddŵr yn ardal FRA, sy'n ymestyn i farc y distyll. Byddai hynny'n glir a syml, ond byddai'n golygu rhoi cyfrifoldeb ar FRAs i achub pobl o rai ardaloedd eang o ddŵr llanw, megis aberoedd afon Hafren ac afon Dyfrdwy, nad oes ganddynt y gallu i wneud hynny. Mae dosbarthiadau MCA, ar y llaw arall, yn fanwl gywir, ond maent ond yn cael eu cyhoeddi ar gyfer nifer fach o gyrff dŵr. Mae angen gwybodaeth fanwl am ddyfnder y dŵr ac uchder y tonnau i ddefnyddio'r dosbarthiadau hyn mewn mannau eraill. Ni fyddai hynny'n darparu unrhyw eglurder o gwbl.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod yr ateb i'r holl bryderon hyn i'w gael yn natur y ddyletswydd. *Ni fyddai* hyn yn nodi o dan ba amgylchiadau neu ym mha leoliadau y byddai'n ofynnol i FRAs ymateb. Yn hytrach, byddai'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt "wneud darpariaeth" ar gyfer ymateb o'r fath – h.y. byddent yn datblygu a chynnal y gallu i wneud hynny – i'r graddau y credant fod hynny'n rhesymol. Byddai yn union beth mae'r gallu hwnnw'n ei gynnwys a sut ac a ddylid ymateb ym mhob achos yn parhau i fod yn faterion gweithredol i'r FRA, fel gydag achosion eraill.

Er enghraifft, gallai FRA ddod i gasgliad rhesymol nad oedd angen gwneud darpariaeth ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau prin iawn neu ddamcaniaethol, fel arbed dioddefwyr byw o dan wyneb y môr yn hytrach na chasglu cyrff. Yn yr un modd, gellid dadlau nad oes angen rhesymol i ddatblygu gallu sy'n dyblygu gwaith asiantaethau eraill fel yr RNLI.

Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn yn nodi'n glir bod angen i FRAs ddatblygu gallu i ymateb i ddigwyddiadau mewn afonydd a llynnoedd - termau sydd, yn ein barn ni, ag ystyr clir sy'n seiliedig ar synnwyr cyffredin ac nad oes angen eu hegluro. Byddai gallu o'r fath lawn mor addas i ymateb i ddigwyddiadau mewn crynofeydd dŵr sy'n digwydd cael eu disgrifio fel pyllau neu byllau dŵr (neu nentydd, ffosydd draenio[2] neu unrhyw derm arall ar gyfer crynofa ddŵr fewndirol nad yw'n ymddangos yn y Gorchymyn drafft). Mae penderfynu a oes angen ymateb i ddigwyddiad penodol o'r fath neu unrhyw ddigwyddiad arall – ac os felly, sut i ymateb – yn parhau i fod yn fater i grebwyll proffesiynol diffoddwyr tân, fel sydd eisoes yn wir am yr holl fathau o ddigwyddiadau eraill y mae FRAs yn ymdrin â nhw.

***Dyfroedd at ddibenion hamdden***

Yn yr un modd, ni chredwn fod angen ymdrin yn benodol â chrynofeydd dŵr sydd wedi'u creu at ddibenion hamdden fel hwylio, rhwyfo, pysgota neu blymio. Nid oes unrhyw reswm

---

[2] Defnyddir y term "ffos ddraenio" i ddisgrifio nodwedd sy'n gyffredin yn bennaf ar Wastadeddau Gwent rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

amlwg i'w heithrio chwaith; yn wir, os ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, gallant fod yn fwy peryglus nag afonydd neu lynnoedd naturiol. Yn aml, mae cyfleusterau o'r fath a'r gweithgareddau a gynhelir yno yn cael eu rheoli mewn ffordd weithredol gan glybiau swyddogol neu fentrau masnachol, ac o ganlyniad byddai ganddynt rwymedigaethau o dan gyfraith iechyd a diogelwch i'w gweithredu yn ddiogel. Gallai hynny gynnwys darparu cyfleusterau a chyfarpar achub fel bwiau achub. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn parhau i fod yn berthnasol er gwaethaf cyflwyno'r ddyletswydd newydd hon. Yn yr un modd, ni ddylai hynny atal FRAs rhag ymateb pan fydd angen, yn debyg i'w dyletswydd i ymladd tanau mewn safleoedd annomestig lle mae gan y meddianwyr rwymedigaethau tebyg.

Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chredwn fod pwll nofio neu gyfleuster tebyg yn perthyn i'n diffiniad o 'ddŵr mewndirol'; ac ni fyddai gallu i achub pobl o afonydd a llynnoedd yn addas o reidrwydd i achub pobl o'r cyfryw gyfleusterau.

***Llifogydd***

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn amlinellu ein diffiniad o lifogydd fel "unrhyw sefyllfa lle mae tir nad yw fel arfer wedi'i orchuddio â dŵr yn cael ei orchuddio â dŵr." Mae hyn yn cynnwys llifogydd sydd wedi'u hachosi gan ddŵr y môr yn codi y tu hwnt i'r marc penllanw arferol. Ni chredwn fod angen rhagor o eglurhad. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai'r ddyletswydd yn gyfyngedig i lifogydd sy'n arwain at berygl o farwolaeth, salwch difrifol neu anaf difrifol, ond nid yw'n atal FRAs rhag ymateb i ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â llifogydd gan ddefnyddio'r pwerau galluogi yn Neddf 2004.

## <u>Cwestiwn 3</u> - A oes gennych chi unrhyw farn ar y cynnig i gyfyngu ar y ddyletswydd i argyfyngau sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol, boed hynny trwy ddod i gysylltiad uniongyrchol â dŵr neu oherwydd difrod arall y gallai llifogydd ei achosi?

Mynegodd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â'r cynnig i gyfyngu ar y ddyletswydd i ymateb i argyfyngau sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol i bobl. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod angen cynnwys y meysydd canlynol yn y ddyletswydd arfaethedig hefyd:

- Atal difrod i seilwaith neu wasanaethau critigol;
- Atal difrod i adeiladwaith economaidd cymunedau, e.e. cyflenwad pŵer;
- Achub anifeiliaid.

Cynigiwyd eithrio digwyddiadau chwaraeon yn cynnwys cyrsiau dwr o unrhyw fath hefyd.

Roedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn poeni y gallai cyfyngu'r ddyletswydd i argyfyngau sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol danseilio sgiliau gallu arbenigol FRA, fel defnyddio rhaffau i achub pobl, sy'n gallu rhoi cymorth ychwanegol i barafeddygon wrth achub cleifion yn ystod llifogydd. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen achub rhywun nad yw'n wynebu unrhyw un o'r peryglon hyn.

Roedd un ymatebydd yn cwestiynu a yw ymateb presennol FRAs i 'bwmpio dŵr allan' o eiddo sydd wedi dioddef llifogydd yn berthnasol o hyd yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Cyfeiriodd RSPCA Cymru at ddau fater allweddol yn ymwneud â'r dosbarthiad 'argyfwng'. Roedd y materion hyn yn gysylltiedig ag effaith peidio â chynnwys isadran (b) Adran 58 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sy'n diffinio argyfwng fel: 'digwyddiad neu sefyllfa sy'n achosi neu'n debygol o achosi niwed difrifol i'r amgylchedd (gan gynnwys bywyd ac iechyd planhigion ac anifeiliaid)'. Roedden nhw'n teimlo y gallai peidio â chynnwys y ddwy is-adran yn y diffiniad arfaethedig greu dryswch posibl yn ystod achos o lifogydd mawr yn ymwneud â chyfrifoldebau FRAs, gan arwain at farwolaeth anifeiliaid o bosibl. Hefyd, roedd yn poeni y gallai bywydau perchnogion anifeiliaid a ffermwyr fod mewn perygl (gan y byddent yn dewis aros gyda'u hanifeiliaid anwes neu eu stoc) pe bai ymateb FRAs i lifogydd wedi'i gyfyngu i ddiogelu bywydau pobl.

Cyfeiriodd un ymatebydd at faterion ehangach nad ydynt yn perthyn i gylch gwaith FRAs ar hyn o bryd, h.y. casglu cyrff marw o gyrsiau dŵr neu fannau eraill sy'n anodd i'w cyrraedd, achub pobl ordew, ac achub anifeiliaid o leoliadau amrywiol gan gynnwys llync-dyllau.

Cyfeiriodd un FRA at gyfraniad FRAs at waith adfer.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r darpariaethau y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud o dan adran 9 o Ddeddf 2004 wedi'u cyfyngu. Mae'n rhaid i'r cyfryw ddarpariaethau ymwneud ag argyfwng yn unol â diffiniad Adran 58 o'r Ddeddf, h.y. digwyddiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi (a) marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol i bobl; neu niwed i fywyd neu iechyd planhigion ac anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a fynegwyd o safbwynt eithrio is-adran (b) sy'n ymwneud â bywyd ac iechyd planhigion ac anifeiliaid. Mae'n bwysig nodi na fydd y ddyletswydd newydd yn atal FRAs rhag achub anifeiliaid yn ystod argyfyngau llifogydd, fel maent yn ei wneud ar hyn o bryd gan ddefnyddio pwerau galluogi Deddf 2004. Mae FRAs eisoes yn gweithio'n agos gyda thimau achub o ddŵr yr RSPCA; dylai hyn osgoi unrhyw ddryswch ynglŷn â chyfrifoldebau yn ystod llifogydd mawr. Fodd bynnag, mae angen hyfforddiant a chyfarpar arbenigol i achub da byw mawr, ac mae'n bosibl nad oes gan FRAs yr hyfforddiant na'r cyfarpar gofynnol ar hyn o bryd. Nid ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i FRAs ddatblygu galluoedd cwbl newydd fel rhan o'r cynigion hyn, felly nid ydym yn cefnogi creu dyletswydd i achub anifeiliaid a phlanhigion yn ogystal â phobl.

Er bod 'argyfwng' yn y Gorchymyn wedi'i gyfyngu i argyfyngau sy'n gallu achosi neu sy'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol i bobl, eto ni fydd y ddyletswydd yn atal FRAs rhag cynorthwyo sefydliadau eraill sydd â galluoedd achub arbenigol, na'u hatal rhag ymateb i ddigwyddiadau sydd y tu hwnt i gwmpas y ddyletswydd, os yw'r capasiti a'r gallu ganddynt i wneud hynny. Yn naturiol, mae person sy'n wynebu perygl i'w fywyd neu ei iechyd oherwydd ei fod wedi ceisio diogelu anifeiliaid neu dda byw rhag llifogydd yn haeddu cael ei achub yn yr un modd â pherson sydd mewn perygl am unrhyw reswm arall.

Wrth reswm, mae FRAs yn darparu gwasanaethau achub ehangach (er nad oes ganddynt ddyletswydd statudol i wneud hynny), fel cynorthwyo'r GIG i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cleifion gordew. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail asesiadau risg FRAs, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y sefyllfa hon.

Ni fyddai'n ofynnol i FRAs bwmpio dŵr allan o eiddo sydd wedi dioddef llifogydd oni fyddai perygl i fywyd neu iechyd pobl neu anafiadau neu salwch difrifol, er y gallant barhau i wneud hyn ar sail anstatudol os ydynt yn dymuno, gan ddefnyddio eu pwerau cyffredinol i ymateb.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynnal neu adfer seilwaith cenedlaethol critigol neu adeiladwaith economaidd cymunedau, byddai'r ystyriaethau ehangach hyn yn destun ymateb Gwydnwch Cenedlaethol cydgysylltiedig yn ymwneud â nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys FRAs. Nid yw cyfrifoldebau FRAs fel ymatebwyr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn cael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd gan y ddyletswydd newydd hon. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir bod modd ystyried difrod i seilwaith neu amharu ar seilwaith fel rhan o gwmpas y ddyletswydd os yw FRA, wrth gynnal asesiad risg, yn dod i'r casgliad y gall pobl fod mewn perygl o farwolaeth neu anafiadau neu salwch difrifol. Er enghraifft, gallai amharu ar y cyflenwad pŵer atal pobl agored i niwed rhag gwresogi eu cartrefi, gan beryglu eu bywydau neu eu hiechyd. Fodd bynnag, FRAs unigol fyddai'n gyfrifol am asesu materion fel hyn.

Yn olaf, nid ydym yn meddwl fod angen eithrio unrhyw ddigwyddiadau chwaraeon dŵr. Yn aml, gall trefnwyr y digwyddiadau hyn ddarparu eu galluoedd achub eu hunain ar ffurf cychod diogelwch, achubwyr bywydau ac ati. Fel sy'n wir am gyfleusterau hamdden, mae'n bosibl y bydd angen meddu ar y galluoedd hyn er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith iechyd a diogelwch, ac ni fydd y sefyllfa hon yn newid. Pe bai'r galluoedd hyn yn ddigonol, ni fyddai angen i FRA ymateb o gwbl. Pe na baent yn ddigonol, ni fyddai unrhyw reswm da dros atal ymateb o'r fath. Fel y nodwyd uchod, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i FRAs gynnal gallu i ymateb, ond nid o reidrwydd i'w ddefnyddio ym mhob sefyllfa bosibl.

## <u>Cwestiwn 4</u> - Ydych chi'n credu y dylai dyletswydd i "wneud darpariaeth" ar gyfer achub o lifogydd ac o ddŵr mewndirol adlewyrchu'r ddyletswydd sydd eisoes ar waith i ymateb i danau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig y dylai dyletswydd i 'wneud darpariaeth' ar gyfer achub o lifogydd ac o ddŵr mewndirol adlewyrchu'r ddyletswydd sydd eisoes ar waith i ymateb i danau a damweiniau traffig ffyrdd.

Cyfeiriodd ymatebydd at y ffaith fod disgwyl i FRAs ddefnyddio eu hadnoddau presennol i ymateb i ddigwyddiadau achub o lifogydd a dŵr; cyfeiriodd at y ffaith fod FRAs yn dibynnu ar hyn o bryd ar sefydliadau eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddarparu asedau ychwanegol fel pympiau cyfaint uchel.

Nododd ymatebydd arall fod angen cyfarpar arbenigol yn aml ar gyfer achub o lifogydd, ac y dylai'r Gorchymyn nodi bod gofyniad rhesymol i FRAs gaffael a chynnal y cyfryw gyfarpar, fel sy'n wir am ddarpariaethau yn Neddf 2004 yn ymwneud ag ymladd tanau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Awgrymodd yr ymatebydd y dylid diwygio adran 4 o Orchymyn 2007 yn unol â hynny.

Gofynnodd un FRA am eglurhad o ystyr 'gofynion rhesymol' mewn perthynas â darparu personél, gwasanaethau a hyfforddiant i ymateb i lifogydd mawr. Cyfeiriodd at y posibilrwydd o ddisbyddu asedau yn gyflym iawn, gan atal FRAs rhag ymateb i geisiadau ychwanegol am gymorth.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r gwasanaeth tân allu adennill ei gostau gan gwmnïau yswiriant yr unigolion perthnasol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddai'r ddyletswydd arfaethedig yn ymwneud â gwneud darpariaeth i fynd i'r afael ag achub o lifogydd ac o ddŵr mewndirol. Fel sy'n wir am ymateb FRAs i danau a damweiniau traffig ffyrdd, byddai'r FRA yn gyfrifol am benderfynu lefel briodol ei ymateb ar sail amgylchiadau pob achos.

Y ddyletswydd yw 'gwneud darpariaeth', waeth a yw hynny'n digwydd drwy ddefnyddio adnoddau ac asedau'r FRA ei hun, neu drwy FRA yn cydweithio a chytuno ag eraill. Mae'r FRAs eisoes yn gweithio gyda sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae ganddynt drefniadau cyd-gymorth ag FRAs eraill, a gallant barhau i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwynt a wnaed ynglŷn â chyfarpar a phwysigrwydd cysondeb o ran trefniadau ar gyfer ymladd tanau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Felly, rydym wedi diwygio'r Gorchymyn drafft i gynnwys "cyfarpar" yn y cynllun gweithredu sydd ei angen gan FRAs o dan adran 4 o Orchymyn 2007. Bydd hyn yn berthnasol i'r Gorchymyn cyfan, h.y. y ddarpariaeth ar gyfer argyfyngau yn ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol ac argyfyngau yn ymwneud ag adeileddau'n cwympo, sy'n destun Gorchymyn gwreiddiol 2007, yn ogystal ag argyfyngau yn ymwneud ag achub o lifogydd ac o ddŵr. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gerbydau a chyfarpar cysylltiedig fel bod FRAs yn gallu ymateb i'r argyfyngau eraill hyn, ac mae'n parhau i ddarparu cymorth refeniw a chyfalaf yn y cyswllt hwn. Ni fydd y Gorchymyn yn newid y sefyllfa hon.

Rydym yn derbyn bod modd dadlau o ran egwyddor bod hawl i FRAs adennill costau gan gwmnïau yswiriant unigolion perthnasol. Fodd bynnag, byddai hynny'n arwain at newid sylfaenol mewn rôl y gwasanaeth a'r drefn o'i gyllido: byddai modd defnyddio'r un ddadl mewn achosion o danau mewn anheddau, er enghraifft. Byddai hyn yn codi amheuon am natur gyhoeddus gwasanaethau tân ac achub, ac ni allai Llywodraeth Cymru gefnogi unrhyw ddatblygiadau o'r fath.

## <u>Cwestiwn 5</u> - Ydych chi'n cytuno nad oes angen gosod dyletswydd ar FRAs i ymateb i lifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr ar draws ffiniau FRA fel yr amlinellir yn Erthygl 5 o Orchymyn 2007?

Roedd nifer cyfartal o ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno â gosodiad y cwestiwn. Roedd sawl ymatebydd yn cytuno nad oedd angen gosod dyletswydd ar FRAs i ymateb i lifogydd ac argyfyngau achub o ddŵr ar draws ffiniau gan fod trefniadau trawsffiniol sydd eisoes yn bodoli yn llwyddo'n dda. Cyfeiriodd pob un o'r tri FRA o Gymru at drefniadau cyd-gymorth sydd eisoes ar waith o dan adran 13 ac adran 16 o Ddeddf 2004.

Ar y llaw arall, nododd sawl ymatebydd y byddai modd cryfhau trefniadau trawsffiniol trwy sicrhau eu bod yn seiliedig ar ddyletswydd statudol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i bodloni bod y trefniadau cydgymorth presennol o dan Ddeddf 2004 yn effeithiol ac yn briodol ar gyfer argyfyngau achub o lifogydd ac o ddŵr. Mae

trefniadau trawsffiniol ar waith ac mae ceisiadau ar gyfer cymorth ar raddfa fwy yn cael eu cydgysylltu drwy Ganolfan Gydgysylltu Genedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni fyddai cyflwyno dyletswydd statudol i FRAs yng Nghymru ymateb i argyfyngau achub o lifogydd ac o ddŵr y tu allan i bob ardal FRA yn newid y trefniadau hyn nac yn sicrhau cymorth cyfatebol gan FRAs y tu allan i Gymru. Fel y nodir yn y papur ymgynghori, mae'r darpariaethau presennol sy'n gwneud cymorth trawsffiniol yn ofynnol yn erthygl 5 o Orchymyn 2007 at ddibenion rhannu asedau gwydnwch cenedlaethol hynod arbenigol sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled Cymru a gweddill y DU. Nid yw'r rhan fwyaf o asedau achub o lifogydd ac o ddŵr yn perthyn i'r categori hyn.

## <u>Cwestiwn 6</u> - Ydych chi'n cytuno na ddylem gynnwys dyletswydd i arwain neu gydgysylltu'r ymateb amlasiantaethol i lifogydd neu achosion o achub o ddŵr?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod FRAs mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain neu gydgysylltu'r ymateb amlasiantaethol i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr, ac roeddent yn cytuno nad oedd angen gorfodi dyletswydd arnynt i wneud hyn. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at egwyddorion y *Joint Emergency Services Interoperability Programme* (JESIP) sy'n llwyddo'n dda yn eu barn nhw ac sydd eisoes wedi'u sefydlu ledled asiantaethau'r ymatebwyr.

Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen creu dyletswydd cydgysylltu statudol ar gyfer FRAs. Ar y llaw arall, nododd sawl ymatebydd y byddai'r asiantaeth briodol ar gyfer arwain achos yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos, ac felly mai'r dull gweithredu amlasiantaethol presennol yw'r mwyaf priodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth fwyafrifol i'r cynnig na ddylid cynnwys dyletswydd statudol i FRAs arwain/gydgysylltu achosion o'r fath.

## <u>Cwestiwn 7</u> – A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Gorchymyn drafft?

Roedd sawl ymatebydd yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i orfodi dyletswydd ar FRAs Cymru, er bod rhai wedi gwneud sylwadau penodol ar y Gorchymyn drafft ei hun. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hymgorffori yn y mannau priodol trwy gydol y ddogfen hon. Nododd ambell i ymatebydd fod defnyddio deddfwriaeth bresennol, sef Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub, Adran 11 - "Pŵer i ymateb i Ddigwyddiadau Eraill" yn addas ac yn ddigonol i ymateb i achosion o achub o lifogydd ac o ddŵr, er eu bod yn deall dymuniad Llywodraeth Cymru i ddiogelu swyddogaethau sy'n anstatudol ar hyn o bryd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod FRAs eisoes yn ymateb i achosion o achub o lifogydd ac o ddŵr fel mater o drefn drwy ddefnyddio eu pwerau cyffredinol i ymateb, er nad oes ganddynt unrhyw ddyletswydd benodol i ymateb. Fodd bynnag, mae'r perygl o lifogydd mawr yn cynyddu, felly mae'n bwysig diogelu'r ddarpariaeth hon, gan sicrhau bod diffoddwyr tân a'u cyflogwyr yn deall eu dyletswyddau'n glir. Rydym yn nodi nad yw hyn yn darparu ar gyfer ymateb safonol ledled Cymru.

Rydym wedi llunio'r ddyletswydd arfaethedig mewn ffordd sy'n cynnwys ac yn ffurfioli trefniadau presennol FRAs ar gyfer ymateb i achosion o achub o lifogydd ac o ddŵr.

## Cwestiwn 8 - Ni chredwn fod y polisi hwn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg na'i fod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ni chredwn y gallai gael ei ail-lunio neu ei ddiwygio i gael effeithiau cadarnhaol. Os ydych chi'n anghytuno, byddem yn croesawu'ch sylwadau ar y mater hwn.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad yw'r polisi yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid oedd unrhyw ymatebydd yn teimlo bod modd diwygio'r cynigion i gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi safbwyntiau ymatebwyr ar y mater hwn.

## Cwestiwn 9 - Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech chi eu codi yn y maes hwn?

Nododd sawl ymatebydd y byddai angen cyllid sylweddol i gyflwyno dyletswydd ar FRAs i ymateb i achosion o achub o lifogydd ac o ddŵr, gan gynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant arbenigol. Dywedodd un FRA y byddai angen ymrwymiad gan bersonél sydd ar alwad hefyd. Cyfeiriodd ymatebydd arall at natur arbenigol y ddyletswydd arfaethedig, a'r angen i sicrhau'r cyfarpar gofynnol.

Yn ôl rhai ymatebwyr, er bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar elfen ymateb achub o ddŵr, mae angen ystyried gwaith ataliol i leihau digwyddiadau ac argyfyngau yn ymwneud â dŵr.

Cyfeiriodd RSPCA Cymru at y cyngor y mae'n ei roi i berchnogion anifeiliaid anwes yn ymwneud â sicrhau diogelwch eu hanifeiliaid yn ystod llifogydd, fel bod modd iddynt gynllunio ymlaen llaw. Hefyd, cyfeiriodd at yr angen am ddarparu hebryngwr golau glas er mwyn ymateb yn effeithiol i achosion o lifogydd, gan ofyn i Lywodraeth Cymru gynnwys hyn mewn unrhyw ganllawiau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi llunio'r ddyletswydd arfaethedig mewn ffordd sy'n cynnwys ac yn ffurfioli trefniadau presennol FRAs ar gyfer ymateb i achosion o achub o lifogydd ac o ddŵr ar sail y galluoedd sydd ganddynt eisoes. At hyn, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r ddyletswydd arfaethedig achosi unrhyw broblemau neu heriau newydd penodol ar gyfer FRAs o safbwynt ariannu. Yn ogystal, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau ymateb i argyfwng eraill FRAs, fel ymladd tanau: mae FRAs yn ariannu hyn drwy gyfraniadau gan eu hawdurdodau lleol perthnasol. Nid ydym yn credu y byddai'n bosibl nac yn synhwyrol ystyried darparu cyllid refeniw ar gyfer gwasanaeth achub o lifogydd ac o ddŵr ar wahân i wasanaethau ymatebol eraill, yn bennaf oherwydd y byddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan yr un criwiau yn yr un gorsafoedd. Fodd bynnag, fel mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ei ddangos, mae'n dod i'r amlwg bod y model ariannu hwn mewn perygl o fod yn anghynaladwy oherwydd arallgyfeirio'r gwasanaeth tân. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o ddiwygio'r maes hwn, gan ymgynghori rhagor maes o law o bosibl.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cyfalaf ar gyfer cyfarpar achub o ddŵr yn y gorffennol. Er mwyn cydnabod y ffaith hon, a chydnabod cyflwyno'r ddyletswydd newydd hon, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwerth £1.8 miliwn o gyllid cyfalaf yn 2016-17 a 2017-18 i ddiweddaru asedau achub o ddŵr FRA.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi safbwyntiau rhai ymatebwyr yn ymwneud ag atal ar ffurf ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr a lleihau peryglon llifogydd. Fodd bynnag, mae pwerau Gweinidogion Cymru yn Neddf 2004 wedi'u cyfyngu i bennu mathau o argyfyngau ychwanegol y mae'n rhaid i FRAs ymateb iddynt; nid oes unrhyw bŵer i ehangu cylch gwaith diogelwch ac atal FRAs. Fodd bynnag, byddem yn annog FRAs i barhau i weithio gydag asiantaethau eraill i ledaenu negeseuon diogelwch dŵr fel rhan o'u gweithgarwch atal ehangach.